Cyngor Cymuned Betws-y-Coed
Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar y 5ed Dachwedd 2018

Presennol - Gareth Wynne Cadeirydd, Marion Betteney, Siân Godbert , Gwawr Jones, Janet Charlton, Nick Corney, Caerwyn Roberts, Clerc.
Ymddiheuriadau -- Cyng Elisabeth Roberts

Datgan diddordeb – Dim datganiad

Cofnodion
Cadarnhawyd cofnodion cyfarfod yr 8fed Hydref 2018.

Materion yn codi

(1)Yr Heddlu
Nodwyd bydd SCHG Jonathan Thomas yn mynychu cyfarfod nesaf y Cyngor.

[1.1] Astudiaeth Dichonoldeb Pont-y-Pair/Ffordd Coed Cynhelir
Dywedodd y clerc fod y Cyng Elisabeth Roberts wedi derbyn yr adroddiad ac y bydd yn adrodd ar y mater yng nghyfarfod y Cyngor ym mis Rhagfyr.

[1.2] Rheolaeth Cae Llan
Penderfynwyd yn unfrydol i ystyried ceisiadau i logi'r cae yn y dyfodol yn ôl ei rhinwedd, yn cynnwys stondinau bwyd.

[1.3] Diffibilriwr
Nodwyd bod y mater yn parhau.

Y brif Agenda

[1.4] Ceisiadau Cynllunio
Trosi a newid defnydd cyn bwerdy i lety gwyliau
Cyn Bwerdy, Ffordd Gethin, Betws-y-Coed.
Eglurodd y clerc nad oedd y manylion cynllunio ar gael ar hyn o bryd a threfnwyd i'r Cyng Siân Godbert a Nick Corney gwrdd y clerc dydd llun 12fed Dachwedd gyda'r wybodaeth.

[1.5] Materion Ariannol
[a] Cymeradwywyd y taliadau ar derbyniadau [a ddosbarthwyd] a wnaed yn ystod mis Hydref 2018.
[b] Y Rhaeadr Ewynnol - Nodwyd y ffigyrau [a ddosbarthwyd] ar gyfer cyfnodau cymharol i ddiwedd Hydref 2018

[1.6] Sedd Wag y Cyngor
Cyfeiriodd y clerc at gais gan Mr Neil Pringle, Glen Craig, Betws-y-Coed i ymaelodi yn aelod cyfethol o'r Cyngor. Penderfynwyd yn unfrydol i wahodd Mr Pringle yn aelod cyfethol o'r Cyngor Cymuned.

[1.7] Gwaith Diogelwch Cronfeydd Dwr
Nodwyd y wybodaeth diweddara fod Cyfoeth Naturiol Cymru ar hyn o bryd yn cryfhau argloddiau, adeiladu gorlifannau a gwella mynediad yn llynnoedd Goddionduon, Llyn Tynymynydd, Llyn Cyfty a Llyn Sarnau.

[1.8] Sul y Cofio
Cytunodd Gwawr Jones I gynrychioli'r Cyngor yng ngwasanaeth Sul y Cofio ar yr 11eg Dachwedd 2018.

[1.9] Materion Amrywiol
Y clerc i ddilyn y canlynol ymlaen
[a] Manhole ar yr A5 gyferbyn a bwyty'r Bistro, y mater heb gael sylw.
[b] Golau wrth yr arhosfa bws angen sylw.

[2] Nodwyd y wybodaeth ganlynol
Byw yn Iach, Sesiwn galw i mewn, Glasdir, Llanrwst 15/11/18 12.30 - 2.45

Cadeirydd_____